Ysgol Y Strade,
Heol Sandy,
Llanelli,
Sir Gâr,
SA15 4DL,
☎ (01554) 745100
swyddfa@strade.sirgar.sch.uk

28/05/2021

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Yn gyntaf hoffwn ymgymryd â'r cyfle hwn i'ch croesawu i Ysgol Y Strade. Mae'r awdurdod lleol bellach wedi cadarnhau lle i'ch plentyn yn Y Strade ar gyfer Medi 2021 a mae'n bleser gennyf gyflwyno digwyddiadau'r wythnosau nesaf i chi. Ein bwriad yw ceisio gwneud y broses o gyfnewid ysgol mor llyfn a di-straen â phosib.

Mae trefniadau wedi bod ar y gweill ers i ni ail agor ein drysau ers y Pasg. Rydym wedi ymweld a phob ysgol gynradd er mwyn casglu gwybodaeth cychwynnol ar bob disgybl. Bu hefyd cyfle i bob ysgol ymgymryd a sesiwn Holi Agored gyda disgyblion presennol Ysgol Y Strade.
Dyma ein rhaglen bontio ar gyfer yr hanner tymor nesaf:

**14/06 – 25/06 -** Blas ar ddiwrnod yn y Strade gan dreulio amser mewn gwersi. Yn anffodus oherwydd y cyfyngiadau presennol ni fyddwn yn medru croesawu pob ysgol i fyny ar yr un diwrnod a fydd y disgyblion yn aros yn ei swigod cynradd am y diwrnod cyfan.

| Dyddiad | Ysgol |
|---|---|
| 14/06/21 | Ysgol Gwenllian |
| 15/06/21 | Ysgol Trimsaran |
| 16/06/21 | Ysgol Brynsierfel |
| 17/06/21 | Ysgol Dewi Sant |
| 18/06/21 | Ysgol Yr Hendy |
| 21/06/21 | Ysgol Llangennech |
| 22/06/21 | Ysgol Y Felin |
| 23/06/21 | Ysgol Parc Y Tywyn |
| 24/06/21 | Ysgol Pum Heol |
| 25/06/21 | Ysgol Y Ffwrnes |

- Bydd angen i chi sicrhau bod gan eich plentyn £2.60 mewn arian parod er mwyn talu am fwyd yn y ffreutur, fodd bynnag os dymunwch, mae croeso i chi ddarparu bocs bwyd i'ch plentyn.
- Ni fydd angen bag na chas pensil.
- Ni fydd angen iddynt wisgo gwisg ysgol ar y diwrnod blasu.
- Mi fyddwn fel ysgol yn darparu cludiant i bob disgybl bl.6 ar gyfer y diwrnod blasu. Mi fydd bws yn casglu bob disgybl i fyny o'r ysgol gynradd am 9:15. Bydd disgwyl i bob disgybl gyrraedd yr ysgol gynradd yn eu ffurf arferol. Mi fydd pob disgybl yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol gynradd erbyn 2:30 er mwyn cael eu casglu yn ôl drefn arferol yr ysgol gynradd.

Gofynnir yn garedig i bob rhiant/gwarchodwr lenwi'r ddolen isod er mwyn rhannu manylion personol eich plentyn a rhoi chaniatâd iddynt ymweld a'r Strade ar y diwrnodau penodedig.
http://bit.ly/Blwyddyn7Medi2021

**Noson Rhithiol i rieni newydd – 07/07/21 -** Mwy o wybodaeth i ddilyn
Noder o dan ganllawiau Llywodraeth Cymru bod disgwyl i bob disgybl dros 11 mlwydd oed gwisgo gorchudd wyneb o fewn adeilad yr ysgol. Yn unol â'r polisi yma, fe fydd disgwyl i unrhyw ddisgybl dros 11 mlwydd oed (cyn dyddiad eich ymweliad) gwisgo gorchudd wyneb tra o fewn adeilad yr ysgol ac ar y bws. Fe fydd y Strade yn ymateb i unrhyw newid i'r polisi yma cyn ymweliad eich plentyn. Fe fydd y Strade yn darparu mwgwd i'ch plentyn cyn iddynt adael yr ysgol gynradd.

Os ydych am holi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r manylion uchod peidiwch ag oedi i gysylltu â mi drwy e-bost swyddfa@ysgolystrade.org neu ar rif ffôn yr ysgol. Gallwch ddod o hyd y fwy o wybodaeth ar wefan yr ysgol www.ysgolystrade.cymru neu ar drydar @Ysgol_Strade.

Yn gywir iawn,

Heulwen Jones
Pennaeth Cynorthwyol